# THEMA: Bioamrywiaeth

## CEFNDIR

Mae hi'n Wythnos Hinsawdd Cymru'r wythnos hon ac i ddathlu hynny, heddiw mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am y term 'bioamrywiaeth'. Yn ystod y dydd, maent wedi dysgu:

- Beth yw bioamrywiaeth, pam ei fod yn bwysig a sut y gall ein helpu.
- Y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a'r hinsawdd.
- Bygythiadau i fioamrywiaeth a beth y gallant ei wneud yn yr ysgol ac adref i gefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn lleol.
- Sut i wneud gwahaniaeth trwy wneud gofodau yn fwy cyfeillgar i natur.

Yn ystod y dydd, anogwyd y plant i archwilio'r testun drwy chwarae. Cawsant dasg i ddatblygu cynlluniau i wneud tir yr ysgol yn fwy cyfeillgar i natur. Beth am roi cynnig ar hyn adref yn eich gardd neu mewn gofod cymunedol cyfagos?

**Gweithgaredd adref:**

Offer:

- Beiro
- Papur

Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithgaredd:

1. Cerdded o amgylch yr ardal a nodi nodweddion natur presennol. Mae croeso i chi wneud nodiadau neu frasluniau o'r nodweddion hynny.
2. Nawr, meddyliwch beth sydd ar goll. Dangoswch ar y map ble y gellir cyflwyno gwelliannau bioamrywiaeth a pha nodweddion y gellir eu gosod.

## DOLENNI AC ADNODDAU

- Garddio bywyd gwyllt
- Natur yn Sir y Fflint
- Cynllun Cefnogi Natur yn Sir y Fflint
- Rheoli Perllannau
- Taflen Sir y Fflint yn ei blodeuo
- Taflen plannu coed yn Sir y Fflint
- Bionet - Partneriaeth Natur Leol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru
- Adnoddau Caru Gwenyn